# Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013

**2013 dccc 1**

**RHAN 6**

CYFFREDINOL

**97 Gorchmynion a rheoliadau**

(1) Rhaid i bwer Gweinidogion Cymru i wneud gorchymyn neu reoliadau o dan y Ddeddf hon gael ei arfer drwy offeryn statudol.

(2) Mae pŵer Gweinidogion Cymru i wneud gorchymyn neu reoliadau o dan y Ddeddf hon yn cynnwys pwer—

(a) i wneud darpariaeth wahanol ar gyfer achosion gwahanol neu ddosbarthau gwahanol ar achos, gwahanol ardaloedd neu ddibenion gwahanol;

(b) i wneud darpariaeth wahanol yn gyffredinol neu'n ddarostyngedig i esemptiadau neu eithriadau penodedig neu mewn perthynas ag achosion penodol neu ddosbarthau penodol ar achos yn unig;

(c) i wneud unrhyw ddarpariaethau cysylltiedig, atodol, canlyniadol, dros dro, trosiannol neu ddarpariaethau arbed ag y gwêl Gweinidogion Cymru yn dda.

(3) Mae offeryn statudol sy'n cynnwys rheoliadau a gaiff eu gwneud o dan y Ddeddf hon neu orchymyn o dan adran 56(2) yn ddarostyngedig i'w ddiddymu'n unol â phenderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

(4) Ni chaniateir i offeryn statudol sy'n cynnwys gorchymyn o dan baragraff 26(1) o Atodlen 2 gael ei wneud oni bai bod drafft o'r offeryn wedi ei osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ac wedi ei gymeradwyo drwy benderfyniad ganddo.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 97 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 100(4)**

**I2** A. 97 mewn grym ar 26.4.2013 at ddibenion penodedig gan O.S. 2013/1000, **ergl. 2(c)**

***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, Adran 97 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 25 Mai 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details) View outstanding changes*

**I3** A. 97 mewn grym ar 4.5.2013 i'r graddau nad yw eisoes mewn grym gan O.S. 2013/1000, **ergl. 3(a)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, Adran 97 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 25 Mai 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau.
View outstanding changes

**Changes and effects yet to be applied to the whole Act associated Parts and Chapters:**
Whole provisions yet to be inserted into this Act (including any effects on those provisions):

- Pt. 3 Ch. 3A inserted by 2022 asc 1 Sch. 4 para. 29(7)
- s. 1(9A) inserted by 2022 asc 1 Sch. 4 para. 29(2)(a)
- s. 38(2)(ca) inserted by 2022 asc 1 Sch. 4 para. 29(3)(a)
- s. 38(5)(ca) inserted by 2022 asc 1 Sch. 4 para. 29(3)(b)
- s. 39(1)(ca) inserted by 2022 asc 1 Sch. 4 para. 29(4)
- Sch. 2 para. 19(2)(c)(i) word inserted by 2022 asc 1 Sch. 4 para. 29(12)(b)